Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/ Date 21/10/2022
Rhif Ffôn/ Direct Line
Ebost/ Email
Cyswllt/ Contact
Eich cyf / Your ref
Ein cyf/ Our ref ADT/KW

Cyflwyno prydau ysgol gynradd am ddim yn gynt na'r disgwyl i ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cyhoeddi eu bod yn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bron 3000 o ddisgyblion cynradd blynyddoedd 1 a 2 yn gynt na'r disgwyl.

Bydd pob plentyn ym mlynyddoedd 1 a 2 nawr yn derbyn prydau ysgol am ddim o ddydd Llun 7fed o Dachwedd (ar ôl hanner tymor mis Hydref).

Mae'r cynllun yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bob disgybl ysgol gynradd dderbyn pryd ysgol am ddim erbyn 2024. Mae hwn yn gam pwysig wrth gyrraedd yr uchelgais gyffredin o sicrhau nad oes yr un plentyn yn llwgu tra yn yr ysgol.

Mewn ymateb i'r cynnydd diweddar yn y gost-o-fyw, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun hwn yn gyflym a byddem yn gofyn am eich amynedd wrth i ni feithrin y gallu i sicrhau gweithrediad graddol llwyddiannus a gweithio tuag at gyflwyno'r ysgol gyfan yn raddol dros y tair blynedd nesaf.

Os yw eich plentyn yn cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd a/neu fudd-daliadau cysylltiedig eraill, gallwch fod yn dawel eich meddwl, **na** fydd hyn yn effeithio arnynt.

Andrew Thomas
Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Education, Leisure & Lifelong Learning
Andrew Thomas
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ
Tel 01639 763298

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Andrew Thomas
Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Ffôn 01639 763298

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.